**Cynnydd yn swm Benthyciad Cynhaliaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) ar gyfer Myfyrwyr amser llawn Bwrsariaeth GIG Cymru cymwys, sy'n hanu o Gymru – Cwestiynau Cyffredin**

**Medi 2024**

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn ymwneud â'r newid a gyhoeddwyd i ddileu mynediad at fenthyciad cynhaliaeth cyfradd ostyngol SFW a rhoi mynediad i fenthyciad cynhaliaeth llawn CMC yn lle ar gyfer myfyrwyr cymwys Bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.

1. **A fydd y newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023 ynghylch disodli'r benthyciad cynhaliaeth cyfradd is yn effeithio arnaf i?**

   Mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau. Roedd y cyhoeddiad a wnaed ar 1 Medi 2023, yn gwneud newidiadau i'r cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael i rai myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru o flwyddyn academaidd 2024/25, gan ddechrau ar Awst 1 neu'n hwyrach.

   Mae'r newidiadau'n effeithio ar fyfyrwyr amser llawn Bwrsariaeth GIG cymwys sy'n hanu o Gymru ac yn eu galluogi i gael mynediad at y swm llawn o fenthyciad cynhaliaeth SFW pe dymunant, waeth beth fo unrhyw arian bwrsariaeth y gallent ei dderbyn.

   Mae'r newid ond yn berthnasol i'r rhai sydd â hawl i gymorth ariannol gan CMC, bydd myfyrwyr a fyddai â hawl i wneud cais am gymorth gan wledydd eraill y cartref, er enghraifft Student Finance England (SFE) yn cadw eu mynediad at y benthyciad cynhaliaeth gostyngol. Ni all Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau na dylanwadu ar y polisi cymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan y gwledydd cartref eraill.

   Efallai na fydd rhai myfyrwyr yn gymwys i gael benthyciad cynhaliaeth SFW oherwydd rheolau astudio blaenorol a/neu os yw eu cwrs yn rhan amser. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch eich cymhwyster penodol at Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr

   **E-bost:**abm.sas@wales.nhs.uk
   **Rhif Ffôn:** 029 21 500 400
   **Oriau agor:** Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 4.30pm.

Mae myfyrwyr o'r gwledydd cartref eraill sy'n astudio yng Nghymru yn dal i allu gwneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru, a fydd, os ydynt yn gymwys, yn rhoi mynediad iddynt at ffioedd dysgu, grant heb brawf modd a bwrsariaeth prawf modd, ar yr amod eu bod yn ymrwymo i weithio yng Nghymru mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol, am hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio.

Symiau Bwrsariaeth a lwfansau ychwanegol (yn amodol ar gymhwysedd)

**i. Ffioedd Dysgu**

Bydd ffioedd myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru cymwys yn cael eu talu'n llawn, hyd at £9000.00 y flwyddyn academaidd ar hyn o bryd. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr gofal iechyd ac i Fyfyrwyr Meddygol a Deintyddol mewn rhai blynyddoedd bwrsari.

**ii. Grant Heb Brawf Modd**

Bydd Myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru amser llawn cymwys hefyd yn gymwys i gael grant blynyddol heb brawf modd o £1000.00.

**iii. Bwrsari Prawf Modd**

Gall myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru Cymwys hefyd fod yn gymwys i dderbyn Bwrsariaeth GIG â phrawf modd; mae hyn yn dibynnu ar incwm y cartref. Dangosir y cyfraddau ar gyfer cwrs 30 wythnos isod. Mae taliadau ychwanegol ar gael yn amodol ar gymhwysedd ar gyfer cyrsiau sy'n rhedeg y tu hwnt i 30 wythnos o'r enw 'Lwfans wythnosau ychwanegol' a ddangosir isod hefyd.

Bwrsariaeth â Phrawf Modd ar gyfer myfyrwyr amser llawn:

| **Trefniadau Byw** | **Swm (y flwyddyn)** |
|---|---|
| Cartref rhieni | Hyd at £2,207 |
| Mannau eraill | Hyd at £2,643 |
| Llundain (ar gyfer Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol yn unig) | Hyd at £3,191 |

**iv. Lwfans Wythnosau Ychwanegol**

Os yw eich cwrs yn rhedeg am fwy na 30 wythnos, efallai y bydd gennych hawl hefyd i'r Lwfans Wythnosau Ychwanegol ar sail prawf modd, fel y dangosir isod:

Lwfans Wythnosau Ychwanegol:

| **Trefniadau Byw** | **Swm fesul Wythnos Ychwanegol** |
|---|---|
| Cartref rhieni | Hyd at £56 |
| Mannau eraill | Hyd at £84 |
| Llundain (Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol yn unig) | Hyd at £108 |

**v. Lwfansau Ychwanegol:**

Gellir talu lwfansau ychwanegol, yn dibynnu ar amgylchiadau personol, megis cyllid i helpu myfyrwyr anabl a chymorth ychwanegol i fyfyrwyr ag oedolion a phlant sy'n ddibynnol arnynt yn ariannol.

Cyfeiriwch hefyd at y Cwestiynau Cyffredin am lwfansau ychwanegol https://nwssp.nhs.wales/ourservices/student-awards-services/student-awards-services-documents/faqs/additional-allowances/.

**Lwfans Dibynyddion**

Mae Lwfans Dibynnydd yn lwfans prawf modd sy’n daladwy i fyfyrwyr sy’n gyfrifol am bobl sy’n ddibynnol yn gyfan gwbl neu’n bennaf arnynt yn ariannol yn ystod eu cyfnod mewn hyfforddiant.

| | Swm y flwyddyn (yn cynnwys 52 wythnos) |
|---|---|
| Priod / Partner Sifil / Partner (neu blentyn cyntaf os nad oes priod / partner sifil / partner) | Hyd at £2,448 |
| Plentyn | Hyd at £549 |

**Lwfans Rhieni sy'n Dysgu**
Mae Lwfans Rhieni sy’n Dysgu (PLA) yn lwfans prawf modd sy’n daladwy i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol, gall hyn fod hyd at uchafswm o £1,204 y flwyddyn.

**Lwfans Gofal Plant**
Os ydych yn gymwys, mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn talu hyd at 85% o'ch costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy i uchafswm net o £128.78 yr wythnos ar gyfer un plentyn a £209.95 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy. Nid yw unrhyw swm a ddyfernir i chi yn drethadwy.

Cyfeiriwch hefyd at y ddogfen Cwestiynau Cyffredin sy’n darparu gwybodaeth ychwanegol nwssp.nhs.wales/ourservices/student-awards-services/student-awards-services-documents/faqs/childcare-allowance/

**Lwfans Myfyrwyr Anabl**
Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr anabl sydd angen cymorth y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan ddarparwr eu cwrs, a/neu offer i'w helpu i gwblhau eu cwrs, yn gallu cael cymorth o dan y Lwfans Myfyrwyr Anabl. Dylai myfyrwyr gysylltu â'u prifysgol am gyngor ar sut i hawlio Lwfans Myfyrwyr Anabl ac i ofyn am asesiad ffurfiol.

**Costau Lleoliad Clinigol / Ymarfer**

Efallai y bydd myfyrwyr hefyd yn gallu cael cymorth gyda chostau lleoliad clinigol / ymarfer. Dylai myfyrwyr gysylltu â'u prifysgol am gyngor ar sut i hawlio costau lleoliad clinigol / ymarfer.

**vi. Benthyciad Cynhaliaeth**

Mae'n bosibl y bydd Myfyrwyr amser llawn Bwrsariaeth GIG Cymru cymwys, sy'n hanu o Gymru, hefyd yn gymwys i gael mynediad at swm llawn y benthyciad cynhaliaeth, fel y nodir isod:

| Living Arrangements | Maximum amount of maintenance loan available £ for 2024/25 academic year |
|---|---|
| Parental Home | 9,315 |
| Elsewhere | 11,150 |
| London (for Medical and Dental Students only) | 14,170 |

**vii.** Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys, neu os oes angen rhagor o arweiniad arnoch, cysylltwch â ni Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr

**E-bost:**abm.sas@wales.nhs.uk
**Rhif Ffôn:** 029 21 500 400
**Oriau agor:** Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 4.30pm.

**2. A fydd yn ofynnol i mi aros a gweithio yng Nghymru ar ôl graddio?**

Bydd. Ar gyfer ein holl fyfyrwyr Bwrsariaeth Gofal Iechyd y GIG mae disgwyl i chi weithio yng Nghymru, mewn lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol, am hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Mae hwn yn amod o delerau ac mae amodau presennol Bwrsariaeth GIG Cymru heb eu newid. Ni fydd swm y cyllid a gewch gan CMC yn effeithio ar eich ymrwymiad i weithio yng Nghymru, dim ond â Bwrsariaeth GIG Cymru y mae hyn yn gysylltiedig.

**3. A yw dileu'r gyfradd is o fenthyciad cynhaliaeth hefyd yn berthnasol i Fyfyrwyr Meddygol a Deintyddol?**

Ydy. Gall ein myfyrwyr meddygol a deintyddol cymwys hefyd elwa o fynediad at y swm llawn o gymorth i fyfyrwyr yn eu blynyddoedd bwrsariaeth.

Mae hyn yn berthnasol i Fyfyrwyr Meddygaeth a Deintyddiaeth cymwys sy'n hanu o Gymru, ni waeth ble yn y DU y maent yn astudio, hy y rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad i'n Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol weithio yng Nghymru ar ôl graddio.

**4. Fel myfyriwr, rwy'n hawlio credyd cynhwysol ar hyn o bryd, a fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau?**

Os ydych yn gymwys i gael y swm llawn o gymorth i fyfyrwyr, mae'n debygol y bydd eich credyd cynhwysol yn lleihau, p'un a ydych yn penderfynu derbyn y cymorth ychwanegol ai peidio.

Byddem yn awgrymu eich bod yn cysylltu â Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol, am gyngor pellach yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol.

Llinell gymorth Credyd Cynhwysol
Rhif Ffôn: 0800 328 5644
Y Gymraeg: 0800 328 1744
Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

**5. Rwy'n Fyfyriwr Bwrsariaeth GIG Cymru ar hyn o bryd ac yn mynd i mewn i'm hail neu drydedd flwyddyn yn y brifysgol, a allaf gael mynediad at y cymorth ychwanegol sydd ar gael?**

Gallech. Gall pob myfyriwr amser llawn newydd a phresennol y Bwrsariaeth GIG sy'n hanu o Gymru, sy'n gymwys i gael cymorth gan CMC, wneud cais am hyd at swm llawn y benthyciad cynhaliaeth; nid oes rhaid i chi wneud cais am y swm cyfan os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

**6. Fel myfyriwr GIG presennol sydd heb geisio am fynediad at y Fwrsariaeth o'r blaen, a allaf i newid?**

Yn anffodus, dim ond o fewn y 10 wythnos gyntaf o ddechrau eu cwrs y caniateir i fyfyrwyr newid ffrydiau ariannu (hy yn ystod 10 wythnos gyntaf eu blwyddyn gyntaf yn unig). Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir newid ar ôl y cyfnod hwn, a ddiffinnir yn y broses apelio isod.

Nid yw Telerau ac Amodau presennol Bwrsariaeth GIG Cymru wedi newid a gellir eu cyrchu drwy'r ddolen hon.

nwssp.nhs.wales/ourservices/student-awards-services/student-awards-services-documents/sas-general-documents/nhs-wales-bursary-terms-and-conditions-pdf/

## 7. Pam na allaf newid ffrydiau ariannu ar ôl y dyddiad hwn?

Yn anffodus, oherwydd gofynion cynllunio adnoddau Llywodraeth Cymru, ni allwn ganiatáu newidiadau y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 10 wythnos.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn newyddion siomedig ond yn anffodus, y tu allan i'r broses amgylchiadau eithriadol, ni allwn ganiatáu trosglwyddiadau y tu allan i'r amserlen hon.

## 8. Sut mae amgylchiadau eithriadol yn cael eu diffinio?

Yn gyffredinol, mae **amgylchiadau eithriadol** yn cyfeirio at y myfyrwyr hynny sydd mewn cyfnod o galedi ariannol sylweddol. Yn gyffredinol, ni fydd unrhyw fyfyriwr sy'n cael benthyciad cynhaliaeth gan wasanaeth Cyllid Myfyrwyr ei wlad gartref o fewn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac sy'n dal yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, yn cael ei ystyried mewn caledi ariannol sylweddol.

Byddai angen i unrhyw fyfyriwr sy'n ystyried ei hun mewn caledi ariannol sylweddol fynd drwy broses apelio.  Rheolir y broses hon gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a gellir ei chyrchu trwy eich prifysgol.

- Dim ond myfyrwyr sy'n hanu o Gymru (hy yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac sydd â hawl i wneud cais am gymorth SFW), sy'n astudio'n llawn amser, ac yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru ac y mae incwm eu cartref yn llai na £50,000 a gaiff eu hystyried.
- Diffinnir incwm cartref fel incwm rhiant/rhieni myfyriwr, priod, partner neu bartner sifil – yn dibynnu ar amgylchiadau personol.
- Byddai aelwydydd ag incwm o fwy na £50,000 yn destun prawf modd allan o daliadau Bwrsariaeth y GIG felly ni fyddant yn gymwys ar gyfer unrhyw gymorth Bwrsariaeth.
- Ni fyddai myfyrwyr sydd am drosglwyddo i'r diben o gael eu ffioedd dysgu wedi'u talu, yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn caledi ariannol.  Mae hyn oherwydd bod y ffioedd hyn ond yn ad-daladwy ar ôl graddio - unwaith y bydd y myfyriwr graddedig yn ennill mwy na throthwy enillion penodol, sef £27,295 y flwyddyn yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth i ddangos caledi ariannol sylweddol yn cynnwys:

- Datganiadau Ariannol: Darparu datganiadau banc, slipiau cyflog, neu gofnodion ariannol eraill sy'n dangos gostyngiad sylweddol mewn incwm neu analluu i dalu costau sylfaenol.

- Hysbysiadau Troi Allan neu Ddogfennau Rhag-gau: Os yw’r unigolyn mewn perygl o golli ei gartref, gall darparu hysbysiadau troi allan neu ddogfennau rhag-gau ddangos difrifoldeb y sefyllfa.
- Hysbysiadau Diffodd Cyfleustodau: Cyflwyno hysbysiadau gan gwmnïau cyfleustodau yn bygwth cau gwasanaethau (fel trydan, dŵr neu nwy) oherwydd biliau sydd heb eu talu.

Os teimlwch fod eich amgylchiadau'n bodloni'r amgylchiadau eithriadol a'r meini prawf cysylltiedig uchod, gallwch ofyn i'ch prifysgol gyflwyno cais am newid, gan nodi amgylchiadau eithriadol drwy'r broses.

Sylwch na allwn ystyried unrhyw apeliadau heb y dystiolaeth ategol. Os na fyddwn yn derbyn cais i apelio gan eich prifysgol, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad ydych yn gymwys o dan yr amgylchiadau a nodir uchod ac nad ydych am apelio.

**9. Os nad wyf yn gymwys o dan amgylchiadau eithriadol, o ble y gallaf gael cyngor a chymorth pellach?**

Manteisiwch ar y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i chi. Yn y lle cyntaf, os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd, cysylltwch â'ch prifysgol.

Bydd eich prifysgol yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad ac efallai y bydd yn gallu rhoi cyngor ar opsiynau ariannu posibl eraill megis ysgoloriaethau, felly cysylltwch â'ch prifysgol yn uniongyrchol am gymorth.